

Disgyblion Mwy Abl a Thalentog yng Nghymru

'Gallwn gefnogi ein holl bobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial, a byddwn yn gwneud hynny.' Addysg yng Nghymru, Cenhadaeth ein Cenedl – Rhagair y Gweinidog



Ers i ni ryddhau ein dogfen ganllawiau gyntaf, cyhoeddwyd y cwricwlwm newydd drafft ar gyfer y chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae'n bwysig i ni fynd ati nawr i edrych ar y datganiadau o'r 'Hyn sy'n Bwysig' yng nghyd-destun y camau cynnydd sy'n dangos, ac yn nodweddu, yr hyn y bydd disgyblion yn gallu ei wneud wrth iddynt symud yn eu blaen drwy'r cwricwlwm. Efo gwell synnwyr o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y cwricwlwm newydd, rydym yn datblygu ymhellach amlinelliad o sut y gellir defnyddio'r camau cynnydd i gynllunio her, ehangder a rhagoriaeth i ddysgwyr mwy galluog, ar draws y chwe MDaPh, gan gwmpasu pedwar diben craidd y cwricwlwm hefyd.

Yma, yn ein hail ddiweddariad i ysgolion, rydym yn tynnu sylw at les dysgwyr a'r pwysigrwydd i hyn fod wrth wraidd ein cenhadaeth, fel y gall pob disgybl ragori. Rydym hefyd yn rhoi gwybodaeth am y cynnig dysgu proffesiynol sydd i ddod, a fydd yn atgyfnerthu'r arferion da a'r casgliadau o waith ymchwil o ran sut i arwain yr agenda sylweddol hon yn ein hysgolion.

Mae 12 Egwyddor Addysgegol y cwricwlwm newydd yn enghreifftio'r ystod eang o strategaethau dysgu ac addysgu y bydd pob disgybl yn elwa ohonynt. Daw canllawiau eto ar ddatblygu rhai agweddau ar yr egwyddorion hyn i fod yn strategaethau ymarferol a hylaw a gaiff ddylanwad mawr yn y dosbarth.

Y Cynnig Dysgu Proffesiynol

Roedd y ddogfen ganllawiau gyntaf yn nodi'r angen i ddysgu proffesiynol ddigwydd ochr yn ochr â, a chefnogi datblygiadau yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Yn 2018/2019, aeth pob rhanbarth ati i roi cynnig ar ddulliau dysgu proffesiynol oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth i ddysgwyr mwy abl a thalentog. Cymerir yr agweddau effeithiol ar bob un o'r dulliau hyn, a'u rhoi ynghyd i ddatblygu dull dysgu proffesiynol cenedlaethol a gaiff ei ddarparu'n rhanbarthol.

Mae egwyddorion cydweithio ysgol i ysgol wrth wraidd y dull gweithredu hwn. Bydd yr ysgolion hynny sydd wedi'u hadnabod ar draws pob rhanbarth yn chwarae rhan bwysig o ran datblygu a chyflwyno'r dull dysgu proffesiynol.

Cyflwynir y rhaglen genedlaethol yng Ngwanwyn 2020.

Lles

Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod athrawon yn darparu profiadau dysgu ac addysgu o safon uchel sy'n canolbwyntio ar wahaniaethu a chyfoethogi i'n disgyblion mwyaf abl yn y dosbarth. Dylid targedu cynhaliath benodol i ddysgwyr mwy abl sy'n galw eu hunain yn fregus. Dylai cefnogaeth fel hyn gynnwys:

- Dysgu ac addysgu rhagorol
- Ymyraethau dysgu yn y dosbarth i helpu codi dyheadau, cyfoethogi neu ddatblygu sgiliau penodol
- Ymgysylltu â disgyblion drwy lais y disgybl, gwir ymwneud â'r dysgu a gwneud penderfyniadau,
- Hyfforddi neu fentora i gefnogi dysgu neu ddyheadau
- Cyfleoedd i fod mewn grŵp cyfoedion, yn yr ysgol neu du allan i'r ysgol
- Tiwtora neu gwnsela un i un—anogaeth gyson ac atgyfnerthu'r agwedd 'gallu'
- Arbenigedd o'r tu allan i gefnogi gwaith cyfoethogi neu anghenion eithriadol
- Cynnwys, cefnogi a chynnig cyngor i rieni/gofalwyr

Yr hanes hyd yma ...

Mae 'Addysg yng Nghymru, Cenhadaeth ein Cenedl' wedi gosod her i'n hysgolion wella arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth i ddisgyblion mwy abl a thalentog, a hynny i gyd yng nghyd-destun cwricwlwm newydd. Yn ein dogfen ganllawiau gyntaf a gyhoeddwyd ym mis Mai, gofynnwyd i ysgolion fyfrio ar eu harferion effeithiol presennol o safbwynt diwallu anghenion disgyblion mwy abl a thalentog, a rhoddwyd cyfres o gwestiynau i ysgolion eu hystyried.

Ochr yn ochr â hyn, buom yn gweithio gyda gwahanol bartneriaid allweddol i ddiweddaru'r diffiniad o Ddisgybl sy'n Fwy Abl a Thalentog. Bydd hyn yn cefnogi athrawon wrth iddynt adnabod dysgwyr Mwy Abl a Thalentog.

Defnyddir y term Mwy Abl a Thalentog yng Nghymru i ddisgrifio disgyblion sydd â galluoedd sydd wedi datblygu i lefel sy'n sylweddol ar y blaen i'w cyfoedion, neu sydd â'r potensial i fod. Efallai bydd angen cyfleoedd cyfoethog ac ymestynnol ar y disgyblion hyn yn y dosbarth, ac ym mhob agwedd ar eu haddysg hefyd, er mwyn datblygu eu galluoedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Yn y canllawiau cenedlaethol, bydd:

- ♦ canllawiau ar gyfer sicrhau arweinyddiaeth effeithiol
- ♦ diffiniad cenedlaethol i gefnogi gwaith adnabod dysgwyr MATH
- ♦ canllawiau ar adnabod, asesu a thracio disgyblion MATH
- ♦ Strategaethau i ddatblygu arferion dysgu ac addysgu rhagorol i ddysgwyr MATH
- ♦ cefnogaeth i les dysgwyr MATH
- ♦ cysylltiadau â Rhwydwaith Seren ac Academi Seren
- ♦ enghreifftiau o ganfyddiadau gwaith ymchwil ac ymchwil gweithredol er mwyn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Yn yr ohebiaeth nesaf, bydd:

- ♦ diweddariad ar y cynnig dysgu proffesiynol
- ♦ amserlen ar gyfer datblygu'r gwaith hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Arweinwyr Rhanbarthol ar gyfer MATH:

Kathryn.bevan@sewaleseas.org.uk

Ian.altman@erw.cymru

MairHerbert@gwegogledd.cymru

John.C.Welch@cscjes.org.uk

Mwy Abl a Thalentog


Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol


Central South Consortium
Consortium Cymroeth y Cw


GWE
Teyrnys Gwladol
Yn ymgyddol


ERW
Yn ymgyddol


EAS
Yn ymgyddol